



Cymdeithas  
Gwasanaethau  
Gwirfoddol  
Sir Gâr

Carmarthenshire  
Association of  
Voluntary  
Services

Y Mwnt, 18 Heol y Frenhines  
CAERFYRDDIN SA31 1JT  
Ffôn 01267 24 55 55  
E-bost [admin@cavs.org.uk](mailto:admin@cavs.org.uk)

The Mount, 18 Queen Street  
CARMARTHEN SA31 1JT  
Tel 01267 24 55 55  
E-mail [admin@cavs.org.uk](mailto:admin@cavs.org.uk)

## **Neges ar gyfer grwpiau / elusennau Cymunedol sy'n defnyddio lleoliadau cymunedol ledled Sir Gâr, ar ran Rhwydwaith y Canolfannau Cymunedol**

Mae canolfannau cymunedol, neuaddau pentref, a chyfleusterau cymunedol aml-ddefnydd eraill yn cefnogi ystod eang o weithgaredd lleol. Mae eu natur gymunedol, fodd bynnag, hefyd yn eu gwneud yn lleoedd a all gyfrannu at ymlediad coronafirws.

Mae Rheoliadau “**The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No 5) (Wales) Regulations 2020**” (fel y'u diwygiwyd) yn caniatáu ar gyfer ailagor Canolfannau Cymunedol ond yn gosod dyletswydd ar yr unigolion hynny sy'n gyfrifol am y ganolfan i gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â Coronavirus yn y fangre neu ymlediad coronafirws gan y rhai sydd wedi bod yn yr adeilad. Bydd methu â gwneud hynny yn arwain at gamau gorfodi.

### **Beth mae hyn yn ei olygu i chi fel rhywun sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn ar gyfer eich gweithgaredd, cyfarfodydd ac ati?**

1. Bydd gan neuaddau eu hasesiadau risg a'u cytundebau llogi eu hunain y mae'n RHAID i chi gadw atynt. Gallant newid o ddydd i ddydd felly cofiwch y diweddariadau.
2. RHAID i chi ddarparu eich asesiad risg eich hun ar gyfer eich gweithgaredd a darparu copi ar gyfer y lleoliad.
3. Gall mesurau rhesymol a roddwyd ar waith gan y lleoliad gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
  - a. Cadw cofnodion ar gyfer tracio ac olrhain
  - b. Cynnal pellter corfforol 2m / 1m
  - c. Lleihau capasiti'r lleoliad i hanner neu lai
  - d. Cyfyngu mynediad i ystafelloedd / adnoddau / cyfleusterau a oedd ar gael o'r blaen
  - e. Dilyn systemau unffordd
  - f. Lleihau hyd eich gweithgaredd
  - g. Eich angen i ddilyn gofynion glanweithio
  - h. Sut rydych chi'n cael gwared â'ch sbwriel
  - i. Sut mae'n rhaid i chi lanhau'r lleoliad cyn i chi ei adael
  - j. Eich gofyniad i wisgo mwgwd

Mae llawer o'n canolfannau cymunedol, neuaddau pentref, a chyfleusterau cymunedol aml-ddefnydd eraill yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr - gall goblygiadau ariannol y mesurau hyn hefyd fod yn rheswm iddynt beidio ag ailagor ar hyn o bryd.

Diolch am gefnogi ein lleoliadau cymunedol ac am eich amynedd a'ch dealltwriaeth. Efallai y bydd nifer o newidiadau, gan fod canllawiau newydd ar gael, felly gwiriwch â'ch lleoliad penodol.